



Arfordir y Gogarth

Arfordir Gogledd Cymru

"Rwyf wrth fy modd ag Arfordir Gogledd Cymru; imi, mae'r gwrthgyferbyniad rhwng y tirweddau naturiol a diwylliannol yn cynnig cyfleoedd di-bendraw i weld a dysgu am yr ardal o safbwyntiau newydd. O'r pierau clasurol a'r bensaerniaeth glan môr grand i'r baeau ysgubol a'r gwarchodfeydd natur ffyniannus, dyma brofiad glan môr i'ch cyfareddu, eich difyrro a'ch dadflino."

GRUFF OWEN, Swyddog Llwybr Arfordir Cymru.

O'r Rhyl i Gonwy

Dilynwch Llwybr Arfordir Cymru a mwynhau cyrchfannau glan môr traddodiadol, pierau siriol llawn hwyl ac unigedd hamddenol traethau tywodlyd hir; cewch hyn oll ar Arfordir y Gogledd. Mwynhewch y tridiau hyn o antur drwy aros dros nos yn Llandudno; fel arall gallwch aros ar y ffordd ger yr anheddiad ar ddiwedd pob dydd.

Cyrraedd

Gellir cyrraedd Llandudno drwy drenau uniongyrchol sy'n stopio o Gaer, Manceinion Piccadilly a Maes Awyr Manceinion a thrwy newid yng Nghyffordd Llandudno, Birmingham, Caerdydd.

Aros dros nôs

Arhoswch yn Llandudno, sef y cyrchfan glan môr mwyaf yng Nghymru erbyn hyn. Dyma glasur o gyrchfan glan môr Fictoraidd, sy'n geinder a thraddodiad i gyd ond yn apelio lawn cymaint at ddant cyfoes. Lle gwych i archwilio tirwedd a hanes Arfordir Gogledd Cymru.

Llety

Mae gan Landudno amrywiaeth eang o lety, nes cynnig rhywbeth at ddant pawb!


visitconwy.org.uk

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch i drefnu'ch llety, mae Canolfan Groeso Llandudno yn cynnig gwasanaeth trefnu llety, gan ganfod ystafelloedd a'u cadw ar eich rhan. Mae'r gwasanaeth hwn yn costio ffi fach a gofynnir hefyd am 10% o flaendal i sicrhau'r ystafell(oedd) adeg y trefnu. Nid yw hwn yn ad-daladwy. Pe byddech am fanteisio ar y gwasanaeth hwn, ffoniwch y ganolfan ar **01492 577 577** neu anfon eich gofynion mewn e-bost i llandudnotic@conwy.gov.uk

Bwyta Allan

Ni ewch chi byth heb bryd bwyd, am fod dewis helaeth o leoedd i fwyta yn Llandudno.

eatingout.ws/restaurants-and-bistros/searchresults?sr=1&poly=631



Arfordir Gogledd Cymru

Cyngor ar y Tir

Am fod Llywyr Arfordir Cymru'n dilyn y morlin yn agos, mae'n anochel y dewch chi ar draws erydiad, clogwyni serth a llwybrau creigiog. Cymerwch ofal, a chofiwch ddewis esgidiau a dillad sy'n briodol i'r amodau hyn ac sy'n addas i ragolygon y tywydd.

Anhawster

Darn cymharol hawdd o Llywyr Arfordir Cymru yw hwn ar hyd rhodfeydd palmantog, a lle mae'n dilyn y ffordd ceir palmentydd llydan. Ceir yno ddarn byr heb balmant, lle mae'n croesi ystlysau Trwyn y Fuwch. Darn cymharol fyr yw hwn a gellir ei osgoi os nad oes chwant mynd yno arnoch.


Cludiant Gyhoeddus

Daw manylion cludiant gyda phob taith gerdded, ond cofiwch fwrw golwg yma ar yr amseroedd: traveline.cymru neu National Rail nationalrail.co.uk neu Trafnidiaeth Cymru tfwrail.wales/

Cludo Bagiau

Os ydych am aros mewn llety ar hyd y ffordd, gwnewch y siwrnai'n rhwyddach drwy ddefnyddio gwasanaeth cludo i drosglwyddo'ch bagiau i'ch cyrchfan nesaf.

walescoastpath.gov.uk/plan-your-visit/planning-carryinghelp/?lang=cy



Y Rhyll i Fae Colwyn 10.5 milltir

Cadwch lygad am ehedyddion a morloi ar hyd y darn hygyrch hwn o Llwybr Arfordir Cymru.

Dechrau

Yn Rhyll gadewch yr orsaf a chadw tua'r dde tuag at y Stryd Fawr. Dilynwch y Stryd Fawr i lawr drwy'r ardal gerddwyr, defnyddiwch y croesfannau i gerddwyr i fynd yn syth ymlaen, heibio i'r tŵr cloc, nes ichi gyrraedd y promenâd a'r môr. Wrth lan y môr, trowch i'r chwith. Rydych bellach ar Llwybr Arfordir Cymru.

Dilynwch y llwybr dros Harbwr y Rhyll a cherdded ochr yn ochr â Gwarchodfa Natur Cinmel. Mae'r warchodfa fechan hon o dwyni tywod yn gartref i blanhigion arforol brodorol fel celyn y môr, pys ceirw, tagaradr a maglys. Trwy lwc, efallai y byddwch yn clywed yr ehedydd neu'n gweld y morloi'n agos i'r lan. Mae yma giosg lluniaeth felly, er na ddaethoch eto'n bell, efallai yr hoffech gael hoe fach gyda natur!

Dilynwch y llwybr yn barhaus yn awr gyda'r darn godidog o draeth ar y dde, ac ewch heibio i nifer o dai gwyliau cyn cyrraedd caffi Pantri Bach lle gallech aros am baned ond, os oes angen rhywbeth ychydig yn fwy swmpus arnoch, gallech dretio'ch hun i bysgod a sglodion am fod digonedd o fannau ar hyd y llwybr. Cyn hir byddwch yn mynd heibio i orsaf Abergele a Phensarn.

Ychydig ymhellach ar hyd y Llwybr ym Mae Llanddulas byddwch yn falch o weld toiledau cyhoeddus. Ewch ymlaen heibio i Lanfa Raynes ac i Fae Colwyn lle cewch siopau a chaffis lu. Mae gorsaf drenau Bae Colwyn ychydig oddi ar Llwybr Arfordir Cymru lle gallwch gael y trên yn ôl i Landudno. Fel arall, os crwydrwch ymhellach i'r dref, cewch fynd ar un o'r bysiau rheolaidd.

Cludiant i fan cychwyn y daith

Bws

Ewch ar fws rhif 12 Paladiwm (Safle C), Stryd Gloddaeth, Llandudno, i orsaf fysiau'r Rhyll. Mae'r bws yn cymryd rhyw 80 munud ac yn mynd bob rhyw 10 munud.

Trên

Fel arall, ewch ar y trên o orsaf Llandudno i orsaf y Rhyll, sy'n cymryd hanner awr yn unig.


Cludiant o ddiwedd y daith

Bws

Ewch ar fws rhif 12,13,14, neu 15 o Eglwys St Paul, Ffordd Abergele, Bae Colwyn i Landudno.

Trên

Ewch ar y trên o orsaf drenau Bae Colwyn i Landudno. Mae'r trên yn cymryd rhyw 20 munud ac yn mynd tua phob awr ond cofiwch holi oherwydd weithiau mae'n mynd bob dwy awr.



Bae Colwyn i Landudno 6.5 milltir

O hufen iâ a phromenadau i olygfeydd syfrdanol o glegyrau calchfaen, mae'r daith hon yn crisialu Arfordir Gogledd Cymru i'r dim.

Dechrau

Dechreuwch yng ngorsaf Bae dilynwch y tanffordd i'r dde o'r orsaf drenau i gyrraedd y Promenâd gyda'r môr o'ch blaenau; yma byddwch yn ymuno â Llywbr Arfordir Cymru.

Trowch i'r chwith a dilyn y promenâd ar hyd glan môr hanesyddol Bae Colwyn. I sicrhau dechrau da i'r daith, arhoswch yn y bar hufen iâ ar y ffordd. Wedi llenwi'ch boliau, ewch yn syth ymlaen tuag at fae eang Llandrillo-yn-rhos - yma gallwch fanteisio ar y casgliad o siopau bychain, caffis a thoiledau cyhoeddus.

Wrth adael Llandrillo-yn-rhos cadwch lygad am Gapel Sant Trillo a'r Ffynnon Sanctaidd. A dim ond chwe sedd y tu mewn, honnir mai hwn yw'r capel gweithgar lleiaf yng Nghymru. Yn wir, mae'n bitw bychan felly cadwch lygad barcud am yr arwydd!

Cerddwch yn syth ymlaen, ac yn y pen draw pan fydd y bfr ffordd yn pwysu i'r chwith, ewch i fyny'r stryd breswyl, Bae Penrhyn, Beach Drive. Pan fyddwch yn cwrdd â chyffordd, dilynwch y ffordd i'r dde tuag at y môr a pharhau i ben y ffordd pan fydd yn cwrdd â grisiau i fyny gydag arwydd Llywbr Arfordir Cymru. Yma mae man cychwyn eich taith ar draws y pentir calchfaen o'r enw Trwyn y Fuwch, sy'n enwog am adar môr a morloi.

Fe welwch olion yr hen chwarel ac fe gewch olygfa odidog yn ôl ar eich taith hyd yma. Dilynwch y llwybr dros y pentir nes iddo ddisgyn eto i gyrraedd y ffordd.

Dilynwch Llywbr Arfordir Cymru yn ôl i Landudno gyda'r Gogarth o'ch blaenau. Pan gyrhaeddwch Landudno gwobrwywch eich hun â phaned ar hyd ei phier rhestredig gradd 2. Y pier Fictoriaidd yma, sy'n 2,295 troedfedd aruthrol, yw'r hiraf yng Nghymru!


Cludiant i fan cychwyn y daith

Bws

O Stryd Mostyn, gyferbyn â'r Gerddi Gogledd-orllewinol, Llandudno, ewch ar fws 12,13,14,15 i far The Station (The Central yn flaenorol) ar Ffordd Rhos., Bae Colwyn. Mae'n 28 munud o siwrnai i Fae Colwyn, a bws yn mynd bob 10 munud.

Trên

Mae trê'n i Fae Colwyn o Landudno yn gadael bob awr ac yn cymryd rhyw chwarter awr.



Llandudno i Gonwy 8 milltir

Teithiwch drwy amser gyda ni ar hyd Llywyr Arfordir Cymru, o'r pier Fictoraidd yn Llandudno i'r Castell Canoloesol yng Nghonwy, a'r cyfan heibio i'r Gogarth ei hun!

Dechrau

Dechreuwch eich siwrnai wrth Bier Llandudno. Ar'r pier y tu ôl ichi, ewch i'r dde a dilyn y Fach sy'n troi'n Marine Drive gan gofleidio'r morlin o gwmpas y Gogarth. Ymlaen â'r llwybr o gwmpas pentir y Gogarth, gan gynnig golygfeydd gwych i'r ddwy ffordd ar hyd yr arfordir a draw i Ynys Môn. Ar y Gogarth, mae llawer o atyniadau i'ch difyrru ar ôl dychwelyd, a pheidiwch â phoeni os yw'ch coesau'n flinedig, am fod yno dram a char cebl i'r copa! Gan ddilyn y llwybr i flaen y pentir, sy'n gallu bod yn wyntog, mae caffi croesawgar yn gwerthu cacennau yng ngwres ei stof llosgi pren.

Byddwch yn dilyn y llwybr ymlaen i lan orllewinol Llandudno, drwy Ddeganwy a heibio i'r marina gyda golygfa o'ch cyrchfan, Conwy. Cadwch lygad am y castell canoloesol trawiadol, a adeiladwyd gan Edward I, yn ystod ei goncwest o Gymru, rhwng 1283 a 1289.

Dilynwch arwyddion Llywyr Arfordir Cymru o hyd a chroesi'r bont i Gonwy. Rydych wedi cyrraedd! Cofiwch gymryd amser i archwilio'r dref hyfryd hon, sy'n cynnwys tŷ lleiaf Prydain, sy'n mesur dim ond 72 modfedd ar ei draws! Ar ôl crwydro, dychwelwch i Landudno ar y bws neu drên.

Cludiant i fan cychwyn y daith

Bws

O Town Ditch Road yng Nghonwy ewch ar fws rhif 5 i Landudno – Mae'r bws yn cymryd 18 munud ac yn gadael bob chwarter awr.

Trên

Cerddwch i orsaf Cyffordd Llandudno sydd yn ôl dros y bont tuag at Landudno ond sylwch fod hon yn hanner awr o daith gerdded. Mae'r trên i orsaf Llandudno yn cymryd 12 munud ac yn gadael bob awr, ac weithiau bob hanner awr. Fel arall, gallwch fynd ar y trên o orsaf Colwyn i Gyffordd Llandudno a newid trenau i gyrraedd Llandudno.



Marina Conwy



Pier Llandudno



Tramffordd y Gogarth

Arfordir Gogledd Cymru Atyniadau

Tramffordd y Gogarth

Tramffordd halio â chebl sy'n gweithredu ers dros ganrif, yn cludo ymwelwyr i'r Gogarth, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ymhlith y golygfeydd lawer i'w gweld, mae dwsinau o gytrefi adar a haid o eifr Kashmiri, sy'n byw'n wyllt yma ers blynnyddoedd lawer.

Car Cebl Llandudno

Mae'r ceir cebl yn mynd â chi o'r Fach ar siwrnai ryfeddol i gopa'r Gogarth, gan roi golygfeydd bendigedig dros Fae Llandudno. Ceir toiledau a chaffi yn y man cychwyn. Beth am fynd i fyny ar gar cebl a dychwelyd ar y Dramffordd i gael dau brofiad?

[tripadvisor.co.uk/ShowUserReviews-g190724-d3491224-r650038993-Great_Orme_Cable_Cars-Llandudno_Conwy_County_North_Wales_Wales.html#REVIEWS](https://www.tripadvisor.co.uk/ShowUserReviews-g190724-d3491224-r650038993-Great_Orme_Cable_Cars-Llandudno_Conwy_County_North_Wales_Wales.html#REVIEWS)

Bryngaer Pen-y-Dinas

Pan fyddwch ar y Gogarth, fe welwch agweddau ar adfail y gaer fegalithig hon. Er nad oes llawer iawn i'w weld, mae'r golygfeydd yn ysblennydd a thawelwch y safle'n deffro ysbryd y gorffennol. Mae'r rheini sy'n ymweld yn cadarnhau ei fod yn werth yr ymdrech.

[tripadvisor.co.uk/Attraction_Review-g190724-d3491213-Reviews-Pen_y_Dinas_Hillfort-Llandudno_Conwy_County_North_Wales_Wales.html#REVIEWS](https://www.tripadvisor.co.uk/Attraction_Review-g190724-d3491213-Reviews-Pen_y_Dinas_Hillfort-Llandudno_Conwy_County_North_Wales_Wales.html#REVIEWS)

Gardd Bodnant, Tal-y-cafn, ger Bae Colwyn, Conwy, LL28 5RE

Gyda chorneli cudd, lawntiau ysgubol, terasau crand a choetir toreithiog, cewch flas ar lawer o erddi mewn un ym Modnant, a pheth arall – mae yno hefyd siop a chaffi hyfryd.

[nationaltrust.org.uk/cy_gb/gardd-bodnant](https://www.nationaltrust.org.uk/cy_gb/gardd-bodnant)

Tŷ Aberconwy, Stryd y Castell, Conwy, LL32 8AY

Yr unig dŷ masnachwr canoloesol yng Nghonwy sydd wedi goroesi hanes tymhestlog y dref furiog, dros bron i chwe chanrif. Mae pob ystafell wedi'i dodrefnu yn ôl y cyfnod ac mae cyflwyniad clyweled yn dangos bywyd beunyddiol y gwahanol gyfnodau yn ei hanes.

[nationaltrust.org.uk/aberconwy-house](https://www.nationaltrust.org.uk/aberconwy-house)